

Newyddlen

Gaeaf 2019

Cenhadaeth SSCE Cymru

Gwybodaeth a thystiolaeth

Cynnal a chomisiynu gwaith ymchwil i brofiadau plant milwyr mewn ysgolion - er mwyn helpu i ganfod lle maen nhw'n wynebu heriau ychwanegol. Defnyddio canfyddiadau'r gwaith ymchwil i bennu ffocws a gwaith SSCE Cymru.

Gweithgarwch ac adnoddau

Gweithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol, elusennau a sefydliadau cymorth i greu adnoddau a fydd yn helpu gweithwyr proffesiynol i gynorthwyo plant milwyr drwy gydol eu haddysg.

Effeithio ar bolisi a systemau

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau dealltwriaeth ynghylch cenhadaeth SSCE Cymru. Cyflwyno tystiolaeth i gydnabod effaith polisiâu ar blant milwyr.



Y diweddraf am y prosiect Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru (SSCE)

Gwobrau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru

Roeddem yn hynod o falch bod Millie Taylor, *Swyddog Prosiect Cymru Gyfan* SSCE Cymru ar gyfer Plant Milwyr mewn Addysg, yn un o'r tri yn y rownd derfynol yng nghategori Gwobrau Ieuencid/Cadetiaid 2019. Gweler y ffilm ganlynol, a ddangoswyd yn y digwyddiad: <https://vimeo.com/379032334>

Casgliad data SSCE Cymru

Mae Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg, wedi ymrwmo i ganfod plant Milwyr, fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes mecanwaith ffurfiol ar gyfer y broses casglu data hon.

Mae SSCE Cymru yn defnyddio amryw o ddulliau i gael dealltwriaeth o nifer a lleoliad plant Milwyr, drwy ymgysylltu â budd-ddeiliaid ac amryw o weithgareddau gydag ysgolion.

Y data mwyaf diweddraf a gasglwyd ar nifer plant Milwyr mewn ysgolion:

Consortia	Awdurdod Lleol	Nifer yr ysgolion	Nifer yr ysgolion gyda 0 plant Milwyr	Nifer yr ysgolion gyda phlant Milwyr	Nifer o blant Milwyr
CSC	Bridgend	59	7	13	40
CSC	Cardiff	123	15	18	118
CSC	Merthyr Tydfil	27	1	6	27
CSC	Rhondda Cynon Taff	122	11	77	233
CSC	The Vale of Glamorgan	54	6	26	329
EAS	Blaenau-Gwent	29	2	11	41
EAS	Caerphilly	87	13	44	158
EAS	Monmouthshire	36	6	25	94
EAS	Newport	56	13	32	131
EAS	Torfaen	33	1	9	27
ERW	Carmarthenshire	112	10	16	49
ERW	Ceredigion	47	6	2	9
ERW	Neath Port Talbot	70	6	12	52
ERW	Pembrokeshire	68	10	20	174
ERW	Powys	107	18	27	252
ERW	Swansea	96	8	20	54
GWE	Conwy	60	6	18	78
GWE	Denbighshire	57	6	7	39
GWE	Flintshire	79	13	18	66
GWE	Gwynedd	103	9	5	30
GWE	Isle of Anglesey	52	4	3	77
GWE	Wrexham	68	10	13	43
		1545	181	422	2121

Yn 2020, mae SSCE Cymru yn bwriadu cynnal gweithgaredd, gan ysgrifennu i holl ysgolion yng Nghymru a darparu templed llythyr i'w anfon i rieni, er mwyn canfod faint o blant Milwyr sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol honno.

Gwrando ar blant Milwyr

Fel rhan o [Flwyddyn Llais Plant Milwyr SCiP Alliance](#), mae Swyddog Ymgysylltu Cymunedol ac Ysgol SSCE Cymru wedi bod yn ymweld ag ysgolion a chynnal grwpiau trafod gyda phlant Milwyr. Mae dros 80 o blant Milwyr oed cynradd ac uwchradd mewn 12 ysgol wedi bod yn rhan o'r prosiect, gyda'r nod o wrando ar blant Milwyr yn uniongyrchol am eu profiadau, sut maent yn elwa o fod yn rhan o deulu'r Lluoedd Arfog, yr hyn sydd wedi'u cynorthwyo i oresgyn heriau a pha gymorth pellach yr hoffent ei dderbyn.

Mae rhai o'r canfyddiadau cychwynnol yn cynnwys:

- Ysgogodd nifer o bynciau trafod ymatebion a sylwadau a oedd yn gadarnhaol ac yn negyddol.
- Un neges gyson a welir drwy gydol y trafodaethau ynglŷn â symudedd yw pwysigrwydd y gwasanaeth cymorth y mae plant yn ei gael gan ffrindiau a theulu, a'r farn negyddol am adael/bod i ffwrdd oddi wrthynt.
- Yn ddealladwy, roedd y rhan fwyaf o sylwadau a safbwyntiau gan blant y lluoedd, ynglŷn â'u profiadau o'u defnyddio yn hynod negyddol.
- Defnyddir ystod eang o fecanweithiau ymdopi gan blant y lluoedd i ymdrin â'u hemosiynau a'u teimladau wrth eu defnyddio. Mae rhai yn unigol ac eraill trwy gymorth gan eraill.
- Trafodaethau am eu profiadau o fyw a chael eu haddysgu yng Nghymru, ysgogodd ymatebion a sylwadau a oedd yn gadarnhaol ac yn negyddol ond a oedd yn bennaf yn gadarnhaol.

Bydd yr adroddiad llawn ar y prosiect ar gael ar <https://www.sscecymru.co.uk> yn 2020.

Gwefan newydd

Bydd gwefan newydd SSCE Cymru yn cael ei lansio yn 2020 ac yn cynnwys llawer o eitemau newydd, megis astudiaethau achos, ffilmiau a chyfeiriadur o gefnogaeth. Edrychwch ar www.SSCECymru.co.uk a hyrwyddwch o fewn eich rhwydweithiau eich hun pan fydd y safle newydd ar gael.

Ffilmiau Cymraeg

Mae Ysgol y Tywyn yn ysgol gynradd Gymraeg yn RAF y Fali gyda nifer fawr o blant Milwyr. Mae nifer o blant Milwyr sy'n mynychu'r ysgol ond yno am oddeutu dwy flynedd ac erioed wedi dysgu Cymraeg o'r blaen. Mae'r teuluoedd wedi cael profiadau cadarnhaol iawn yn yr ysgol. Gweithiodd SSCE Cymru gyda'r ysgol a'r plant Milwyr i gynhyrchu ffilmiau byr ar ddysgu a siarad Cymraeg.

Brawddegau Cymraeg - <https://vimeo.com/377598793>

Cyfri yn Gymraeg - <https://vimeo.com/377599145>

Canu Pen-blwydd Hapus - <https://vimeo.com/377598989>

Canu caneuon Cymraeg - <https://vimeo.com/377598073>

Diolch yn fawr i staff a phlant Milwyr Ysgol y Tywyn am ein cynorthwyo gyda'r prosiect.

Pecynnau Cymorth Newydd SSCE Cymru (i'r ysgol a'r rhieni)

Mae dau becyn gwaith SSCE Cymru bellach yn cael eu datblygu – a disgwylir iddynt lansio yn 2020. Bydd y pecynnau gwaith SSCE Cymru yn cynnwys astudiaethau achos o esiamplau o arferion da, cyfeirio at gymorth sefydliadol ac offer SSCE Cymru newydd, gan gynnwys templedi a rhestrau gwirio.

SCiP Alliance – Hwb Cymru (14 Tachwedd)

Lleoliad: Ystafell y bwrdd y Lleng Brydeinig Frenhinol, Caerdydd

Mae SSCE Cymru wedi cydweithio gyda Phrifysgol De Cymru i gyflwyno'r 7fed Hwb SCiP Alliance yn y DU. Pwrpas yr Hwb yw galluogi cydweithio, hwyluso cyfathrebu ac adeiladu capasiti, ac roedd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, elusennau'r Lluoedd Arfog, y Weinyddiaeth Amddiffyn, CCAUC a nifer o brifysgolion Cymru, yn bresennol.

Roedd y cyfarfod yn llwyddiant ysgubol gyda nifer o drafodaethau cadarnhaol o ran cefnogi plant Milwyr drwy addysg. Diolch i bawb a fynychodd!

Eitemau ar y Rhaglen:

- Cyflwyniad SCiP Alliance – ymchwil, Hwb
- Profiadau plant Milwyr a chymorth SSCE Cymru
- Plant Milwyr mewn Cynlluniau Ffioedd a Mynediad
- Diwrnodau Lluoedd Creadigol
- Ymchwil yng Nghymru.

Mae copïau o'r cyflwyniadau a'r nodiadau wedi cael eu dosbarthu i'r rhai a fynychodd neu a anfonodd ymddiheuriadau.

SCiP Alliance - Hwb Cymru nesaf: dyddiad (i'w gadarnhau) Mawrth 2019, lleoliad (i'w gadarnhau).

Partneriaeth Awdurdod Lleol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn (26 Tachwedd)

Lleoliad: Barics y Maendy, Caerdydd

Roedd cyfarfod grŵp cyntaf Partneriaeth Awdurdod Lleol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Amddiffyn a naw awdurdod lleol.

Roedd y cyfarfod yn cynnwys nifer o drafodaethau cadarnhaol ar y ffordd all awdurdodau lleol weithio gyda SSCE Cymru a'r DCYP i gefnogi eu plant Milwyr. Diolch i bawb a fynychodd!

Eitemau ar y Rhaglen:

- Profiadau plant Milwyr a chymorth SSCE Cymru
- Diweddariad Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc (DCYP)
- Plant Milwyr – Cynnig/prosiect Swyddogion Cyswllt Ysgol Rhanbarthol
- Cymorth awdurdod lleol ar gyfer plant Milwyr.

Mae copïau o'r cyflwyniadau a'r nodiadau wedi cael eu dosbarthu i'r rhai a fynychodd neu a anfonodd ymddiheuriadau.

Partneriaeth Awdurdod Lleol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn nesaf: dyddiad (i'w gadarnhau) Mawrth 2019, lleoliad (i'w gadarnhau).

I gael mwy o wybodaeth am brosiect SSCE Cymru ewch i www.SSCECymru.co.uk a dilynwch ni ar Twitter [@SSCECymru](https://twitter.com/SSCECymru)

Mae croeso i chi rannu newyddlen SSCE Cymru â'ch rhwydwaith a'ch cysylltiadau eich hun. Gall unrhyw un sydd am ymuno â Rhwydwaith SSCE Cymru wneud hynny yma: www.SSCECymru.co.uk/contact-ssce

Y Diweddaraf am Gyllid



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynorthwyo Plant Milwyr mewn Ysgolion - Cronfa Cymru

Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £250,000 i gefnogi plant personél y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Cafodd 63 o geisiadau eu cyflwyno gan ysgolion ac awdurdodau lleol a derbyniodd 28 o'r rheiny gyllid llawn neu rannol. Cafodd nifer o geisiadau eu cyflwyno ar y cyd gan glystyrau ysgol. Roedd rhai o'r prosiectau llwyddiannus yn cynnwys:

- Oriau Staff
- Cyrsiau Hyfforddi
- Clybiau ar ôl Ysgol
- Deunydd darllen.



Ministry
of Defence

Cronfa Cymorth Addysg (ESF)

Yn ei flwyddyn olaf, roedd £2m o gyllid ar gael gan y Weinyddiaeth Amddiffyn drwy Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd. Cyflwynwyd 11 cais gan ysgolion yng Nghymru, gyda saith o'r rheiny yn llwyddiannus gan dderbyn cyfanswm o £135,000.



ARMED FORCES
COVENANT

Grantiau bach (o dan £20,000)

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl y bydd pawb sydd yn gwasanaethu, neu wedi gwasanaethu, yn y lluoedd, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg.

O dan raglen Grantiau Lleol Cyfanmod y Lluoedd Arfog, mae grantiau o hyd at £20,000 ar gael ar gyfer prosiectau lleol sy'n cefnogi integreiddio i'r gymuned neu ddarpariaeth gwasanaethau lleol.

Roedd SSCE Cymru yn llwyddiannus yn y cylch ceisiadau diwethaf, gan ddiogelu £19.5k ar gyfer cyfres newydd o adnoddau i holl ysgolion Cymru elwa ohonynt, gan gynnwys pecynnau gwaith, offer, astudiaethau achos a ffilmiau.

Dyddiad cau'r cylch ceisiadau nesaf yw 4 Chwefror 2020 (l'w gadarnhau).

Am fanylion pellach, ewch i www.covenantfund.org.uk/local-grants-and-digital-development

Mae canllawiau a chyngor ar wneud cais ar gyfer grantiau ar gael ar www.SSCECymru.co.uk

Y Diweddaraf am Rwydwaith SSCE Cymru

Addysg



Canllawiau newydd UCAS ar gyfer myfyrwyr posibl o gefndir Lluoedd Arfog y DU

Yn dilyn cydweithio rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn, UCAS a'r SCiP Alliance, mae UCAS wedi rhyddhau tudalen wybodaeth a chyngor newydd ar gyfer myfyrwyr o gefndir Lluoedd Arfog y DU, ac mae'n fyw erbyn hyn ar: www.ucas.com/undergraduate/applying-university/individual-needs/students-uk-armed-forces-background.

Mae'r tudalennau gwybodaeth yn cynnwys cyngor ar gyfer plant Milwyr, cyn filwyr a phartneriaid personél Lluoedd Arfog y DU.

Sefydliadau'r Lluoedd Arfog

Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin

Mae Sadie Baldwin wedi ymuno â'r Tîm Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin fel Cydlynnydd newydd Cymru a'r Gororau. Ei phrif rôl yw ymgysylltu gyda theuluoedd y Fyddin a'u cefnogi nhw gydag unrhyw bryderon neu ymholiadau sydd ganddynt, gan ymgynghori gydag arbenigwr y Ffederasiwn. Mae Sadie hefyd yn gweithio ar y cyd gyda'r cadwyn awdurdod, darparwyr gwasanaeth ac asiantaethau eraill. Rhai o'r prif feysydd gall y Ffederasiwn gynnig cymorth yw iechyd, anghenion ychwanegol, tai, y Fyddin wrth gefn, lleoli milwyr, anghenion addysgol a gofal plant, hyfforddiant cyflogaeth, materion ariannol a bywyd teuluol.

Os yw personél neu aelod o'u teulu yn gallu siarad am eu pryderon neu faterion, ac yn gweld eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu bywydau. Yn ei dro, mae hyn yn helpu'r Ffederasiwn i gasglu tystiolaeth bwysig, y gellir ei ddefnyddio i helpu llobio am newid lle bo angen hynny.

Cysylltwch â Sadie:

wales@aff.org.uk

07527 492868



Cyfle cyffrous i blant a phobl ifanc 9-18 oed!

Mae Never Such Innocence (NSI) yn elusen addysgol ryngwladol wedi'i leoli yn y DU, gyda'r bwriad o roi llais i blant a phobl ifanc ar wrthdaro. Mae NSI yn cynnig cystadleuaeth gelfyddydol creadigol a llwyfannau unigryw i bobl ifanc ar draws y byd.

Thema'r gystadleuaeth eleni yw 'Effaith Gwrthdaro ar Gymunedau' gyda dau gategori ychwanegol: 'Brwydr am Ryddid' a '75'.

Mae NSI yn annog plant a phobl ifanc i edrych ar wrthdaro sydd wedi, neu ar hyn o bryd, yn effeithio ar gymunedau, ac ymateb iddynt drwy gerdd, araith, cân neu ddarn o waith celf.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn tystysgrif canmoliaeth personol a bydd gwobrau arbennig iawn i'r enillwyr! Ar eu gwefan, mae ganddynt adnodd am ddim o'r enw 'Conflict Through the Ages', sy'n archwilio hanes a themâu nifer o wrthdaro mawr. Ewch i'w gwefan am ragor o wybodaeth neu i gymryd rhan yn eu cystadleuaeth rhyngwladol. Y dyddiad cau ar gyfer cymryd rhan yw 20 Mawrth 2020. Ymunwch â phlant a phobl ifanc o dros 50 o wledydd yn y symudiad rhyngwladol hwn!

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â enquiries@neversuchinnocence.com neu ewch i www.neversuchinnocence.com.

CYMORTH I DEULUOEDD A PHOBL GWASANAETH LLYNGESOL



I gefnogi ein pobl, rydym yn darparu:

- Gwasanaeth Gwybodaeth
- Cyfathrebu Ar-lein
- Ystod o Brosiectau a Gweithgareddau Cymunedol
- Cyngor i Gadwyn Awdurdod/Adrannol
- Gwasanaeth Gwaith Achos



☎ 0800 145 6088

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau ewch i:

www.royalnavy.mod.uk

[f](https://www.facebook.com/NSFamilyPeopleSupport) /NSFamilyPeopleSupport [@ NavalServiceFPS](https://www.tumblr.com/NavalServiceFPS)

NS FPS

"Gwasanaeth Integredig, Hyblyg i fodloni anghenion ein holl bobl"

Diwrnod Hwyl i Deuluoedd Casnewydd a Sir Fynwy

Yn ystod gwyliau'r haf, cynhaliodd Swyddog Cefnogi Addysg Lluoedd ei Mawrhydi ar gyfer Casnewydd a Sir Fynwy a Swyddog Cyswllt Cyfamod Lluoedd Arfog Gwent, ddiwrnod hwyl i deuluoedd ar gyfer Teuluoedd Milwyr ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, gyda chymorth SSCE Cymru. Mynychodd teuluoedd o holl wasanaethau'r Lluoedd Arfog, ac roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol. Fe gynorthwyodd i hyrwyddo gwaith SSCE Cymru a'r cymorth y gall y Swyddog Addysg Lluoedd ei Mawrhydi ei ddarparu i blant a theuluoedd Milwyr. Roedd y digwyddiad yn gyfle i siarad â theuluoedd yn uniongyrchol, er mwyn clywed am eu profiadau, a chael eu barn o ran ble mae angen mwy o gymorth.

Darparodd Newport Live, County in the Community, Gwylwyr y Glannau a Mini Golf amrywiaeth o weithgareddau am ddim yn y digwyddiad.



Ysgolion

Ysgol Uwchradd Crucywel

Mae gan yr ysgol flwyddyn gyffrous o'i blaen, ar ôl bod yn llwyddiannus mewn cais i gael cyllid drwy Grant Cyfamod y Lluoedd Arfog, gan alluogi'r ysgol i gael Swyddog Cefnogi Teuluoedd y Lluoedd ar y safle. Drwy weithio mewn partneriaeth agos gyda Gwasanaeth Lles y Fyddin (Aberhonddu), byddent yn rhedeg grŵp wedi'i arwain gan ddisgyblion, i greu murlun ysgol a noson agored lle gall y teuluoedd ddod i weld gwaith caled y disgyblion. Caiff ei greu gan fentergarwch y disgyblion, gan ddefnyddio deunyddiau gwahanol i greu'r darn o waith. Bydd y prosiect newydd cyffrous yn helpu i gefnogi plant Milwyr a chynyddu dealltwriaeth am y Lluoedd Arfog yn yr ysgol, drwy sgwrsio, grwpiau cyfeillgarwch newydd a rhoi gwell dealltwriaeth o'r anawsterau a'r cyfleoedd sy'n wynebu teuluoedd y Lluoedd Arfog. Bydd y prosiect arfaethedig hefyd yn plethu i mewn i Gwricwlwm yr Ysgol.

Adnoddau

Naval Families
F E D E R A T I O N

PorthCartref

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael yma:

<https://nff.org.uk/homeport-magazine/>

aff | army
families
federation

Cylchgrawn Army & You

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael yma:

<http://bit.ly/win19AY>



Envoy

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael yma:

<https://www.raf-ff.org.uk/publications/envoy-magazine/>

Digwyddiadau i ddod



Digwyddiad Tymhorol Ysgolion

1 Kingsway, Caerdydd CF10 3PW
Dydd Iau 13 Chwefror 13.30

“Rydym yn falch o groesawu Millie Taylor, Swyddog Prosiect Cymru Gyfan Plant mewn Addysg SSCE Cymru, i siarad gyda ni am yr heriau sy'n wynebu plant Milwyr yn ein hysgolion, a sut all ysgolion eu cefnogi yn well.

Rydym hefyd yn falch o groesawu Dr Helen Lewis, a fydd yn cynrychioli Burns Pet Nutrition Foundation, sy'n hyfforddi gwirfoddolwyr a'u cŵn i gefnogi plant i ddarllen a hyrwyddo eu lles. Ym Mhrif Gynhadledd Lles mewn Addysg, dywedodd Syr Anthony Seldon y dylai pob ysgol gael ci lles. Siaradodd yr addysgwr blaenllaw am y ffordd y gall anifail anwes yn y dosbarth leihau pryder ymysg pobl ifanc, a gall fod yn allweddol i wella iechyd meddwl mewn ysgolion.

Byddwn hefyd yn clywed gan ysgolion AfA sy'n elwa o'n rhaglenni hyfforddi Lles a sut maent wedi gallu bodloni anghenion eu disgyblion yn well.

Croesawir holl ysgolion. Gallwch archebu drwy Eventbrite ar ôl y Nadolig. Mae'r holl lefydd yn ddi-dâl.”

Am fwy o wybodaeth ewch i www.afaeducation.org/

Cynhadledd Genedlaethol AFA

Park House School Newbury
Dydd Mawrth 4 Chwefror

Fforymau a Digwyddiadau Cyfamod Cymunedol y

Cyfarfod Cyfamod Cymunedol Lluoedd Arfog Ynys Môn

RAF Y Fali
12 Rhagfyr 10:30-12:30

Fforwm Lluoedd Arfog Casnewydd

Barics Rhaglan, Allt-yr-yn View, Casnewydd 19
Rhagfyr 9:30-11:30

Cyfarfod Cyfamod Cymunedol Lluoedd Arfog Conwy

Criw D y Cwmni Brenhinol, Canolfan yr Adfyddin, Bae Colwyn
13 Rhagfyr

Partneriaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog Sir Ddinbych

Ystafell Gyfarfod 1, Caledfryn, Dinbych
9 Ionawr 10:30 – 13:00

Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog Ceredigion

13 Ionawr 10:00 – 13:00

Grŵp Llywio Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog Sir Gaerfyrddin

Barics y Weinyddiaeth Amddiffyn, Teras Picton, Caerfyrddin
14 Ionawr

Grŵp Llywio Cyfamod y Lluoedd Arfog Blaenau Gwent

Ystafell Bwyllgora 2, Swyddfeydd Dinesig,
Blaenau Gwent
21 Ionawr 10:00 – 12:00

Fforwm Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog Sir Benfro

Neuadd y Sir, Cyngor Sir Penfro, Hwlfordd
22 Ionawr

Fforymau Lluoedd Arfog Byrddau Iechyd Prifysgol

Fforwm Lluoedd Arfog Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Barics Rhaglan
15 Ionawr 09:30 – 12:30

Fforwm Lluoedd Arfog Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Ystafell Ystwyth, Penmorfa, Aberaeron
10 Chwefror 14:00-16:30

Grŵp Cyfamod Fforwm Lluoedd Arfog Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

Ystafell Bwyllgora 2, Swyddfeydd
Dinesig, Cyngor Bro Morgannwg
15 Ionawr 14:00 – 16:00

Astudiaethau achos

Cewch weld enghreifftiau o arfer da yma:
www.SSCECymru.co.uk/case-studies

Rydym bob amser yn chwilio am enghreifftiau o'r modd y mae ysgolion yn cynorthwyo plant milwyr. I ddweud wrthym am y gwaith rydych chi'n ei wneud a sut mae hynny wedi bod o fudd i'ch disgyblion neu i gymuned yr ysgol, cysylltwch â SSCE@wlga.gov.uk.



Dilynwch ni ar Twitter [@SSCECymru](https://twitter.com/SSCECymru)

Bydd newyddlen nesaf SSCE Cymru yn cael ei rhannu yn
nhymor y Gwanwyn 2020.

Os hoffech gyfrannu cynnwys i'r rhifyn nesaf, dylech ei anfon i
SSCE@wlga.gov.uk erbyn 28 Chwefror.